# ADFYFYRIO AR DDARPARIAETH BLYNYDDOEDD CYNNAR (EAEE5002/C)

**Log adfyfyriol**

| |
|---|
| Disgrifiad byr o'r gweithgaredd |
| Y gweithgaredd rydw i'n ysgrifennu am yw paratoi y plant meithrin am y mabolgampau. Pob blwyddyn cyn torri lan am yr haf, rydum yn cael mabolgampau gyda'r ysgolion meithrin eraill yr ardal. Felly mae angen cael y plant yn barod am hwn, a cael nhw i ymarfer y gwahanol rasus bydd nhw'n neud ar y Dydd. I'r plant ieuengaf y meithrin hwn bydd y tro cyntaf iddynt neud rhywbeth fel hyn.<br>A mae gallu bod gwahaniaeth mawr mewn gallu y plant. Yn enwedig rhwn y rhai henaf ar rhai ieuengaf. |
| Nod/Amcan y gweithgaredd |
| Paratoi y plant am y mabolgampau'r haf. |
| Eich rôl chi |
| Dysgu y plant beth yw neud, galw ei henwau a dweud iddynt pryd i ddechrau. Cymorth y plant sydd ddim yn ymdopi yn dda iawn. Yn aml mae gallu fod llawer o swn a cyffro a mae hwn yn gallu fod yn ormod i rhai or plant. Mae'n braf hefyd gweld y plant sy'n llawn cyffro ag sydd yn fynnu ar cystadlu. |
| Agweddau cadarnhaol – pam? |
| Mae'n cael y plant yn barod i cystadlu yn erbyn plant eraill, ag i wneud rhywbeth bydd yn cadw nhw'n iach ag yn heinu. |
| Agweddau heriol – pam? |
| Dydi pob plentyn ddim yn hoffi chwaraeon neu mae nhw byth wedi neud or blaen, hefyd mae'n annodd I rhai blant I golli, mae nhw'n cymrud yn difrifol iawn. Mae nhw gallu bod yn drist ag yn cystadleuol iawn, er does dim arfer cwmpo mas, os rydum yn cadw egluro mae tipyn o hwyl yn unig yw e, a bod siom os chi'n dod yn olaf. |
| Pa wybodaeth arddangoswyd? |
| Fe wnes i esbonio 'ir plant bod yn tamed o hwyl a ddim i fod yn rhi drist os doeddent ddim yn ennill. Fe wnes I defnyddio y wybodaeth fi wedi dysgu wrth neud hwn yn y gorffenol bod dim angen creu fws mawr ar y dechrau neu maer plant yn tieddol o poeni gormod, mae'n well cario ymlaen yn gyflum ag os mae plant yn drist i trial symud ymlaen yn gyflum ar ol cymorth nhw am cwpl o funedau. Mae nhw'n dieddol I symud ymlaen yn gloi. |
| Pa sgiliau arddangoswyd? |

| |
|---|
| Wnaeth y plant ddefnyddio sgiliau corff, a sgiliau gwrando. Fe wnes i ddefnyddio sgiliau plannu, esbonio, iechyd a diogelwch. Mae rhaid symud y fordydd a'r cadeiriau allan or fordd cyn dechrau hwn er mwn i'r plant cael mwy o le i rhedeg. |
| Pa werthoedd arddangoswyd? |
| Rydw i'n defnyddio fy werth fel ymarferydd i cysuro y plant sydd yn drist ag yn galed ar ei hun. Rhaid cofio bod dim pob plentyn yn hoffi cystadlu, mae rhai yn gallu fod yn swil ofnadwy ag rhai plant hefyd efallai ddim yn cael llawer o cyfle i cadw'n heinu a dysgu sgiliau newydd. Ond ar yr un modd rhaid hefyd rhoi clod i'r plant sydd yn neud yn dda, yn enwedig efallai y rhai sydd ddim yn dda iawn yn gwaith papur neu ysgrifenedig, mae'n bosib bod rhai yn mwynhau mas draw ar cystadlu ag styried eu bod yn dda iawn yn rhwybeth, mae hwn gallu fod yn boost mawr i ei hunan -barch. |
| Beth allai cael ei wneud yn wahanol? Pam?<br>Bydd yn hyfryd gallu gwneud y gweithgaredd yma y tu allan ond yn anfoddus nad oes lle gennym y tu allan. Efallai erbyn blwyddyn nesaf bydd yn bosib drefnu amser i fynd ir parc efallai, er mwyn i'r plant cael mwy o le. Hefyd does dim byth digon o amser, rwyn sylwi ar ol i ni orffen maer plant yn settlo llawer gwell ag yn cytuno a chwarae yn dda gydan gilydd, mae'n awgrymi bod addysg gorfforol yn budd-dal mawr i'r plant. |
| |

# Pwysigrwydd adfyfyrio fel modd o gynnal gwasanaethau o safon i blant ifanc

---

Yn ol (Paige-Smith a Craft, 2011), mae ymarfer adfyfyrio yn agwedd hanfodol o weithio gyda plant a pobl ufainc, ag mae yn galluogi dealltwriaeth ddyfnach o'u dysgu a'u datblygiad. Er bod traddodiad hir gydag ymarferwyr plentyndod cynnar o arsylwi'n agos ar blant er mwyn ysgogi eu datblygiad, disgwylir iddynt fyfyrio fwy ar eu hymarfer eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd, er mwyn gwella eu datblygiad proffesiynol a gwella eu hymarfer.

Nid yw addysgu myfyriol o hyd yn rhwydd, gan fod ysgrifennu cyfnodolyn, hunangofnodi neu wneud recordiadau o wersi yn gallu cymryd amser. Fodd bynnag, mae athrawon sydd yn adfufurio yn dweud ei fod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer hunanwerthuso a thwf proffesiynol.

1704356

MAE'R TERM ' YMARFER MYFYRIOL ' YN DEILLIO O WAITH DEWEY A SCHON. YSGRIFENNODD (DEWEY, 1910) FOD YMARFER MYFYRIOL YN CYFEIRIO AT ' YSTYRIED YN WEITHREDOL, YN DDYFAL AC YN OFALUS UNRHYW GRED NEU FFURF DYBIEDIG AR WYBODAETH YNG NGOLEUNI'R SAIL SY'N EI CHEFNOGI '. MAE HWN YN GOLYGU BOD GYDA CHI DULL CWESTIYNU; BYDD YN HELPU I SYLWEDDOLI PAM MAE RHAI PETHAU YN DIGWYDD, A SUT GALLWCH NEWID Y CANLYNIAD.
AETH DEWEY YMLAEN I DDWEUD MAE BOD YN FYFYRIOL ' YN EIN GALLUOGI I GYFEIRIO EIN GWEITHREDOEDD GYDA RHAGWELEDIAD ... MAE'N EIN GALLUOGI I WYBOD BETH YR YDYM YN EI FEDDWL PAN FYDDWN YN GWEITHREDU '.

FODD BYNNAG, MAE (SCHON,1983), YN CYFLWYNO SAFBWYNT YCHYDIG YN WAHANOL. MAE'N YSTYRIED BOD DWY AGWEDD I'R MYFYRDOD: MYFYRIO-GWEITHREDU AC ADFYFYRIO-AR-WEITHREDU.
MAE MYFYRIO-AR WAITH YN CYFEIRIO AT Y MEDDWL CYFLYM A'R YMATEB SY'N DIGWYDD FEL RYDYCH CHI'N EI WNEUD, ER ENGHRAIFFT YN YR YSTAFELL DDOSBARTH RYDYCH CHI EFALLAI YN DYSGU PWNC Y GALLWCH EI WELD NAD YW'R DISGYBLION YN EI DDEALL. MAE EICH MYFYRDOD YN EICH GALLUOGI I WELD HYN, YSTYRIED PAM EI FOD YN DIGWYDD, AC YMATEB DRWY EI WNEUD YN WAHANOL. GALLAI HYN OLYGU AIL-FFRAMIO EICH ESBONIAD NEU NESÁU AT Y PWNC O SAFBWYNT GWAHANOL.
EFALLAI EICH BOD YN MEDDWL YN DDYFNACH AM Y RHESYMAU PAM NAD OEDD Y DISGYBLION YN DEALL, BETH ACHOSODD Y SEFYLLFA, PA DDEWISIADAU OEDD AR GAEL I CHI, PAM Y GWNAETHOCH DDEWIS UN OPSIWN AC NID MATER ARALL. BYDD EICH YMATEBION YN DIBYNNU AR EICH LEFEL BRESENNOL O WYBODAETH A PHROFIAD, EICH DEALLTWRIAETH O DDAMCANIAETHAU A'CH GWERTHOEDD.

1704356

MAE GWNEUD AMSER AR GYFER DATBLYGIAD PROFFESIYNOL, MYFYRIO A THRAFOD YN GALLUOGI YMARFERWYR I GANOLBWYNTIO AR DDATBLYGU'R CWRICWLWM, AR DDYSGU A DATBLYGIAD PLANT AC I SICRHAU NEWID CADARNHAOL YN EU LLEOLIAD. (AISTEAR SÍOLTA, 2017)

Mae ymarfer myfyriol ac ymarfer beirniadol fyfyriol yn nodwedd allweddol o leoliadau addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel. Mae ymarfer myfyriol yn galluogi gweithwyr proffesiynol plentyndod cynnar i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o'u hymarfer eu hunain, a datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r dulliau angenrheidiol yn barhaus i creu y dyfodol a canlyniadau gorau I'r blant.

Mae ymchwil rhyngwladol wedi canfod bod y gweithwyr proffesiynol cynnar mwyaf effeithiol mewn plentyndod yn ystyried ac yn mabwysiadu delweddau hyblyg o blant a phlentyndod ac yn ailystyried y rolau y maent yn eu chwarae ym mywydau plant. At hynny, pan fydd gweithwyr proffesiynol yn myfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer, maent yn gallu creu cyfleoedd go iawn i blant fynegi eu meddyliau a'u teimladau eu hunain a dylanwadu'n weithredol ar yr hyn sy'n digwydd am gweddill eu bywyd.

**Cynllun Datblygu Personol**

| Agwedd ar gyfer datblygiad pellach (ychwanegwch fanylion) | Pam? | Sut? | Pwy/Ble? | Pryd? |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwybodaeth | Rheoli amser ar aseniadau.<br>Ddim yn cael digon o amser i ddarllen llyfrau | Angen neilltuo amser, ddarllen a dechrau aseiniadau'n gynharach, gan rhoi mwy o amser i mi gwblhau.<br>Rhaid ysgrifennu lawr amser y byddai yn darllen a gwneud aseniadau pob wythnos a trial cadw ati. | Ysgrifennu yn y dyddiadur amser a dydd pob wythnos i fynd ir llyfrgell. A gadael amser ychwanegol I ddarllen. | Bydd dyddiad adolygu hwn ar diwedd pob wythnos i neud yn siwr fy mod yn aros ar blaen y gwaith |
| 2. Gwybodaeth | Hoffwn cwblhau cwrs cymorth cyntaf gan bod un fi wedi rhedeg allan. | Efallai gallai gwneud hwn trwyr prifysgol ond os na wnai cysylltu cyda'r colleg nos sydd yn fy dref. | Coleg neu mae llawer o cwmnioedd breifat yn cynal y cyrsiau yma hefyd. | Cyn gynteg a bosib gan bod hwn yn bwysig iawn. |
| 3. Sgiliau | Rwyn awyddus iawn i ddysgu ag yn hoffi datblygu | Gallaf gwneud gwelliannau gyda fy sgiliau TGCh, rwyn edrych i mewn i gwrs a byddaf yn | www.valeofglamorgan.gov.uk | Efallai dros yr haf gan bydd mwy o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fy sgiliau academaidd ag cyfrufiaduron. | gobeithio ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. www.valeofglamorgan.gov.uk Mae nhw hefyd yn cynal cyrsiau ar sgiliau cyflwyno. Mae hwn yn parahol. www.cavc.ac.uk/en/adults/adultbasiceducation | | amser gyda fi. |
| 4. Sgiliau | Cyfeirnodu. | Angen gwella cyfeiriadau o hyd er mwyn iddo ddod yn ail natur. Darllen y llawlyfr cyfeiriadau, parhau i'w ymarfer. Edrych dros hen sylwadiau y tiwtor. Gofyn am help os mae angen. Mae hwn angen cael ei cwblhau cyn dechrau lefel 6. | Mae llawer o help drwyr brifysgol ag hefyd ar y we. | Yn syth. |
| 5. Gwerthoedd | Dddibynadwy, yn awyddus i ddysgu a tyfu. | Datblygiad proffesiynol parhaus, yn parhau i fynd ar gyrsiau, yn cadw dysgu ac yn gwella. Rhoi fy hun gerbron. | Mae angen mwy o cysylltiadau arnai er mwyn neud yn siwr bydd Gwaith gyda fi ar ol gorffen y gradd. | Trwyr amser, ond byddaf yn edrych et oar ddiwedd lefel 5. |
| 6. Gwerthoedd | Peidio a chymryd gormod o gyfrifoldeb a bod yn fwy pendant. Methu gweithio llawn amser eto | Ceisio gweithio allan trefniadau am y plant er mwyn galluogi fi i weithio llawn amser. | Mae angen rhoi y plentyn ieuengaf mewn i rhyw fath o clwb ar ol Ysgol felly gallai gwithio ymlaen. Os fi'n casglu o'r Ysgol fi'n sylwi bod llawer o fy frindiau/mamau eraill yn gofyn I fi gasglu a gwarchod ei plant nhw hefyd a maen anodd i ddweud na, hyd yn oed os mae ddim yn | Pan bydd y plant yn mynd nol i ysgol yn mis Medi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | oherwydd<br><br>gofynion y teulu. | | gyfleis iawn i fi. Rhaid ceisio newyd hwn. | |
| 7. Arall? | Fi wedi gweithio gyda babi's am blynyddoedd ond does dim gyda fi llawer o profiad o gweithio mewn Ysgol, felly ar ol yr haf hoffwn gwirfoddoli mewn Ysgol Gynradd leol. | Rwyf yn edrych mewn i beth byddaf yn neud ar ol y cwrs yma dod i ben. Mae gen i ddiddordeb mawr yn astudio seicoleg mewn dyfnder, efallai gradd feistr. Rwyf wedi hefyd glywed bod y mudiad meithrin yn cynnig ysgoloriaeth i bobl sy'n fynychu gradd meistr yn y Gymraeg i neud gyda phlant felly byddaf yn edrych mewn i hwn. www.meithrin.cymru | Byddai'n cysylltu hefo'r cyngor i cynnig gweithio neu gwirfoddoli mewn ysgol.<br>Mae yna lawer o Ysgolion yn Penarth. | Medi 2018. |

Cyfeirnodau

Bolton, G. (2014) *Reflective Practice*. (4th Ed). London. Sage.

Boud, D., Keogh, R. and Walker, D. (2013). *Reflection.* Independence: Taylor and Francis.

Brock, A. (2014) *The Early Years Reflective Practitioner Handbook*. London. Routledge.

Canning, N. (2011*) Play and Practice in the Early Years Foundation Stage*. London. Sage Publications.

Colwell, J. *Reflective teaching in Early Education*.

Dunkel, H. (1973). The Early Works of John Dewey, 1882-1898 5: 1896-1898. John Dewy. *The School Review*.

Early Childhood Education.

Early Childhood Research and Practice.

Flood, E. and Hardy, C. (2013). *Early childhood curriculum*. Dublin: Gill et Macmillan.

Gaine, N*. Child health and well-being.*

Gray, C. (2013). Reflective practice: experiential learning in the early years. *International Journal of Early Years Education*.

Hall, K. (2009). *Pedagogy and practice*. Los Angeles, California. Sage.

Hayes, N. *Early years practice.*

International Journal of Early Childhood

Kolb, D. (2015)*. Experiential learning*. Upper Saddle River: Pearson Education, Inc.

Paige-Smith, A. and Craft, A. (2011). *Developing reflective practice in the early years*. Berkshire, England: McGraw Hill.

Piaget, J. (2013). *Origin of Intelligence in the Child*: Routledge.

Piaget, J., Tomlinson, J. and Tomlinson, A. (n.d). *The child's conception of the world*.

Pollard, A. (2001). *Reflective teaching in the primary school*. London. Continuum.

Samuelsson, I. (2012). Thinking about play: developing a reflective approach. *Early Years*.

Venninen, T., Leinonen, M. and Lipponen, L. (2012) ‘Creating conditions for reflective practice in Early Childhood Education.’ *International Journal of Child Care and Education Policy.*